



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Defnydd Llywodraeth Cymru o ddata myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn casglu ystod o ddata am fyfyrwyr addysg uwch a graddedigion yn flynyddol o brifysgolion yn y DU, colegau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill sy'n cael eu cyllido yn wahanol. Mae'r data hyn wedyn yn cael eu rhoi i lywodraethau'r DU a chyrrff cyllido addysg uwch i gefnogi eu gwaith o ran rheoleiddio a chyllido darparwyr. Hefyd, mae gwybodaeth sy'n codi o'r data yn cael ei chyhoeddi fel ystadegau dienw swyddogol ac mewn sawl fformat hygyrch i'w defnyddio gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion (gan gynnwys darparwyr addysg uwch, ymchwilwyr academaidd, myfyrwyr, darpar fyfyrwyr, cwmnïau preifat, cyrrff proffesiynol, y wasg a'r cyfryngau).

Mae HESA yn cyhoeddi [hysbysiad casglu](#), yn esbonio sut y mae data yn cael eu casglu a'u prosesu. Nid yw'r datganiad hwn yn ceisio ailgreu hysbysiad casglu HESA, ond mae'n esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a gesglir gan HESA ar fyfyrwyr a graddedigion.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan HESA?

Mae Llywodraeth Cymru yn cael data gan HESA ar fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru â darparwyr addysg uwch a gweithgarwch graddedigion sy'n cwblhau'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE). Mae peth o'r data a roddir gan HESA i Lywodraeth Cymru yn ddata personol a/neu ddata categori arbennig, fel y'i diffinnir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r data a geir gan HESA?

Mae data HESA yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd gan Lywodraeth Cymru. Fe'u defnyddir i fonitro a datblygu polisi, cyhoeddi ystadegau ynghylch addysg uwch yng Nghymru ac i ymateb i geisiadau am ddata a dadansoddiadau gan randdeiliaid neu aelodau o'r cyhoedd. Cyhoeddir unrhyw ystadegau neu ymatebion i geisiadau am ddadansoddiad yn ddienw. Mae hyn yn golygu nad oes modd adnabod unigolion.

Monitro niferoedd myfyrwyr

Defnyddir data HESA i fonitro lle y mae myfyrwyr yn astudio, gan gynnwys llif drawsffiniol myfyrwyr addysg uwch yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio data HESA i fonitro llif myfyrwyr i sefydliadau addysg uwch Cymru, o bedwar ban byd. Mae nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU, a phob myfyriwr sy'n astudio yng Nghymru, yn cael eu monitro yn flynyddol, yn ôl newidynnau sy'n cynnwys:

- blwyddyn astudio;

- lleoliad astudio;
- o ble y maent yn hanu (e.e. Cymru, Lloegr, yr UE, yn ogystal â lleoliadau rhanbarthol pan fo angen hynny);
- lefel astudio (israddedig neu ôl-raddedig);
- dull astudio (amser llawn neu ran-amser);
- pwnc astudio;
- nodweddion cydraddoldeb (e.e. oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd).

Rhagamcanu niferoedd myfyrwyr

Defnyddir data HESA (ar y cyd â ffynonellau eraill, megis rhagamcanion UCAS a rhagamcanion poblogaeth) fel sail i gynhyrchu rhagamcanion o nifer y myfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagamcanu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i addysg uwch a myfyrwyr o'r tu allan i Gymru y rhagwelir y byddant yn astudio mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Defnyddir y rhagamcanion hyn o nifer y myfyrwyr i ragweld costau polisiau cymorth i fyfyrwyr i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â rhagweld yr incwm o ran ffioedd dysgu i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nodi unrhyw garfannau neu grwpiau o fyfyrwyr, er mwyn monitro neu ddatblygu polisiau penodol.

Rhagolygon o ran cymorth i fyfyrwyr

Ar lefel fanylach, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data HESA i amcangyfrif nifer y myfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth o dan bolisiau cyllid myfyrwyr penodol. Mae hyn yn cynnwys y nifer o fyfyrwyr israddedig llawn amser o Gymru sy'n gymwys i dderbyn cymorth, er enghraifft, benthyciad ffioedd myfyrwyr. Fel hyn, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data HESA er mwyn helpu i sicrhau bod digon yn y gyllideb i fodloni'r costau, yn ogystal â gwerthuso cynaliadwyedd y fath bolisiau i'r dyfodol. Defnyddir rhagamcanion o nifer y myfyrwyr hefyd mewn rhagolygon sy'n ymwneud â chostau tebygol ar gyfer unrhyw newidiadau polisi a gaiff eu hystyried gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Datblygu a gwerthuso polisiau

Rhaid i gynigion polisi gael eu costio'n llawn ac mae'r categorïau penodol o ran nifer y myfyrwyr yn cael eu defnyddio i gefnogi hyn. Fel enghraifft benodol, defnyddiwyd data HESA i werthuso fforddiadwyedd argymhellion Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllido Myfyrwyr (Adolygiad Diamond). Fe'i defnyddiwyd i roi dadansoddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Cabinet yn ehangach i lunio ymateb Llywodraeth Cymru. Mae data HESA yn ffynhonnell sylfaenol ar gyfer Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n dod gyda deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion yn rhoi ystyriaeth i grwpiau o fyfyrwyr sydd â nodweddion cydraddoldeb gwahanol (e.e. oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd).

Deilliannau ar gyfer addysg uwch

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio data HESA i ddadansoddi deilliannau addysg uwch, gan gynnwys y cymwysterau a gafwyd gan fyfyrwyr a chyrchfannau graddedigion. Mae'n cael data'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac yn gadael darparwyr addysg uwch ar draws y DU, a phawb sy'n gadael darparwyr o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu data'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch gyda data myfyrwyr HESA arall i ddadansoddi llif myfyrwyr a graddedigion o'r ardal lle maent yn hanu i'r fan lle maent yn

astudio addysg uwch i'r lleoliad a'r gweithgarwch (ee. gwaith, astudiaethau pellach, neu fel arall) ar ôl iddynt raddio. Enghraifft benodol o'r math hwn o ddadansoddiad hwn yw tracio athrawon dan hyfforddiant o'u hardal enedigol i'r fan lle maent yn astudio i'r ardal lle maent yn gweithio ar ôl cymhwyso. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cael ei ddefnyddio i lunio'r gwaith o fonitro polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â recriwtio a hyfforddiant athrawon.

Monitro'r Gymraeg

Defnyddir data HESA hefyd ar gyfer y gwaith monitro arferol o ran defnyddio'r Gymraeg mewn addysg uwch, yn enwedig nifer y myfyrwyr sy'n cael peth o'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau ar gyfer y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio nifer penodol o gredydau yn Gymraeg. Mae hyn yn rhan o flaenoriaethau ehangach gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Strategaeth y Gymraeg.

Cysylltu data

Defnyddir data HESA i gysylltu â chofnodion eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw, megis y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, yn ogystal â chofnodion eraill a gedwir gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys data cyflogaeth. Defnyddir hyn i dadansoddi cynnydd dysgwyr drwy'r system addysg a eu deilliannau, yn ôl newidynnau fel amddifadedd, rhyw, ethnigrwydd ac anabled. Defnyddir hyn i lunio'r gwaith monitro a datblygu polisïau ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â symudedd cymdeithasol, cynyddu'r mynediad at addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a deilliannau addysg a hyfforddiant.

Rhannu data at ddibenion dadansoddi ac ymchwil

Rhennir data HESA gyda chontractwyr trydydd parti sy'n dadansoddi data, cysylltu data ac yn gwneud ymchwil neu werthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae London Economics Ltd yn gwneud gwaith paru data i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys data HESA. Efallai y caiff sefydliadau ac ymchwilwyr eraill ddata HESA dienw, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb rhannu data ffurfiol yn ei le, pan fyddwn yn rhannu data HESA gyda thrydydd parti. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r trydydd parti lofnodi cytundeb cyfrinachedd mewn perthynas â'r data, i ddangos bod ganddynt weithdrefnau diogelu gwybodaeth sy'n ddigonol. Bydd copïau o'r data yn cael eu dinistrio pan fo'r amserlen ar gyfer y cytundeb rhannu data yn dod i ben. Ni allant ddefnyddio'r data am unrhyw reswm arall heblaw'r rheswm y maent wedi cytuno iddo. Mae holl gopïau trosglwyddo data yn cael eu logio a'u cofnodi.

Enwau cyswllt

Ystadegydd

E-bost: Post16Education.Stats@llyw.cymru

Am ragor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Dedataprotectionofficer@llyw.cymru

Er mwyn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
[Hafan | ICO \(Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth\)](#)